Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Y canllawiau statudol sydd eu hangen i weithredu'r ddyletswydd ansawdd a disodli'r safonau iechyd a gofal (2015)

Ionawr 2023

Cyflwyniad

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Canllawiau Statudol sy'n ofynnol i weithredu'r ddyletswydd ansawdd ac i ddisodli'r safonau iechyd a gofal (2015).

Mae'r Comisiynydd yn cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i gael dull o ymdrin ag ansawdd y gwasanaeth iechyd ar draws y system gyfan, a hynny er mwyn sicrhau bod ansawdd a chanlyniadau pobl Cymru yn gwella.

Mae'r Comisiynydd yn croesawu cylch gwaith ehangach y chwe maes ansawdd a'r pum galluogwr ansawdd yng nghyd-destun y ddyletswydd ansawdd yn ei chyfanrwydd a'u perthnasedd ym mhob gwasanaeth a lleoliad clinigol ac anghlinigol. Mae'r Comisiynydd yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Canllawiau Statudol sy'n llai manwl.

Fodd bynnag, hoffai'r Comisiynydd dynnu sylw at rai agweddau ar brofiad pobl hŷn o wasanaethau iechyd sy'n arbennig o berthnasol, ac mae wedi llunio ei hadroddiadau a'i chanllawiau ei hun ar rai ohonynt. Y bwriad yw bod o gymorth i Lywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd wrth iddynt ddatblygu eu dulliau o ymdrin ag ansawdd ac wrth gynhyrchu eu hadroddiadau blynyddol.

Oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran

Mae corff cynyddol o ymchwil yn dangos bod gwahaniaethu ar sail oedran yn cael ystod eang o effeithiau negyddol ar bobl hŷn, gan effeithio ar eu hiechyd corfforol a meddyliol,

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Enw, Teitl y Swydd: Valerie Billingham, Arweinydd Iechyd a Gofal
03442 640 670 // cyfeiriad e-bost Valerie.billingham@olderpeople.wales

gweithrediad y cof, y ffordd maent yn gwella yn dilyn cyfnod o salwch, lefelau allgáu cymdeithasol, a hyd yn oed disgwyliad oes.

Roedd adroddiad y Gymdeithas Frenhinol er Iechyd y Cyhoedd, *That Age-Old Question*: *how attitudes to ageing affect our health and wellbeing*,[1] yn galw i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gael eu hyfforddi ar effeithiau gwahaniaethu ar sail oedran mewn lleoliadau clinigol a gofal. Mae adroddiad Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, *Suffering in Silence,*[2] yn tynnu sylw at wahaniaethu, tresmasu ar hawliau dynol, anghenion ddim yn cael eu diwallu ac esgeuluso pobl hŷn mewn gwasanaethau iechyd meddwl yn y DU ac mae'n rhoi enghreifftiau o beth yw gwahaniaethu ar sail oedran mewn gwasanaeth. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

Gwahaniaethu uniongyrchol

• Rhagfarnau, er enghraifft iselder, yn ganlyniad anochel i heneiddio

• Gofyniad i drosglwyddo gwasanaethau ar oedran penodol, gan arwain at anfantais a cholli perthnasoedd

• Dosbarthu adnoddau mewn modd anghyfiawn, gan gynnwys drwy ganfyddiadau, er enghraifft, bod dargyfeirio mwy o adnoddau i bobl iau yn fwy cost-effeithiol; gormod o bwyslais ar y Blynyddoedd Bywyd a Addaswyd yn ôl Ansawdd; tanariannu tymor hir a llai o fuddsoddi

• Gwrthod mynediad at wasanaethau i bobl iau a allai ddiwallu anghenion pobl hŷn, e.e.: datrys argyfwng; triniaeth yn y cartref; therapïau siarad, oherwydd rhagfarnau nad yw pobl hŷn yn addas i'r gwasanaeth; dylai materion corfforol a chymdeithasol gael blaenoriaeth.

Gwahaniaethu anuniongyrchol

• Methiant i adnabod anghenion sy'n newid

• Pobl o bob oed yn derbyn yr un gwasanaethau beth bynnag fo'u hanghenion penodol.

Felly, mae mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran yn hanfodol er mwyn cefnogi iechyd a llesiant pobl hŷn, a'u mynediad at ofal iechyd a'u profiad ohono. Mae'r Comisiynydd yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd yn cyfeirio at ei chyhoeddiadau Gweithredu yn Erbyn Oedraniaeth[3] a Sut i Osgoi Gwahaniaethu ar Sail Oedran wrth Gyfathrebu: Awgrymiadau ymarferol i weithwyr proffesiynol[4] fel adnoddau ar gyfer gweithredu polisi ac ymarfer ar ansawdd.

Data

Nid yw pobl hŷn yn aml yn cael eu cynrychioli mewn llawer o ffynonellau data, sy'n achosi anawsterau wrth geisio nodi'r materion a'r rhwystrau sy'n effeithio ar eu profiad o ansawdd gwasanaeth ac sy'n cyfrannu at ragfarn ar sail oedran a gwahaniaethu ar sail oedran.

Mae'n hanfodol bod amrywiaeth pobl hŷn yn cael ei hadlewyrchu mewn polisïau ac arferion, yn enwedig y rheini sydd wedi wynebu gwahaniaethu ac anghydraddoldebau gydol oes, sy'n cynnwys pobl hŷn LGBTQ+, Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, anabl ac sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae adlewyrchu amrywiaeth pobl hŷn a'u hanghenion, yn enwedig lle mae gwahaniaethu ac anghydraddoldeb wedi digwydd ar hyd eu hoes, yn hanfodol ac mae'n rhaid i bolisi ac ymarfer beidio â thrin pobl hŷn fel grŵp unffurf.

Mae hefyd yn hanfodol bod casglu data am ansawdd gwasanaethau iechyd yn galluogi Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd i gyhoeddi data wedi'u ddadgyfuno yn ôl oedran sy'n benodol i Gymru ar gyfer pobl hŷn, wedi'u categoreiddio yn ôl band oedran yn ogystal â chategorïau eraill o amrywiaeth.

Mynediad heb fod yn ddigidol at wybodaeth a gwasanaethau

Mae'r defnydd cynyddol o dechnoleg ddigidol wedi cyflymu yn ystod y pandemig Covid-19, gyda rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu ar-lein ac o bell gan y GIG ledled Cymru erbyn hyn. Er y bydd yr apwyntiadau hyn yn addas i lawer o bobl, nid yw 33% o bobl dros 75 oed a 13% o bobl 65-74 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd.[5] Hyd yn oed pan fydd gan bobl fynediad ar-lein, efallai nad ydyn nhw'n ddefnyddwyr hyderus wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd. Felly, mae'n bwysig cydnabod y risg o eithrio'r rheini nad ydynt yn dymuno cael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau yn y ffordd hon, neu nad ydynt yn gallu gwneud hynny.

Cyhoeddodd y Comisiynydd Sicrhau mynediad at wybodaeth a gwasanaethau mewn oes ddigidol: Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd ym mis Tachwedd 2021.[6] Mae'r canllawiau, a gyhoeddwyd o dan bwerau cyfreithiol y Comisiynydd, yn nodi'r mathau o gamau y dylai byrddau iechyd fod yn eu cymryd fel bod gan bobl nad ydynt yn gallu (neu nad ydynt yn dymuno) mynd ar-lein ffyrdd o gael mynediad at y wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt drwy ddulliau nad ydynt yn ddigidol, ac i gefnogi pobl hŷn i fynd ar-lein. Mae'r Comisiynydd yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd yn ystyried ei harweiniad ar fynediad at wybodaeth a gwasanaethau wrth ddatblygu polisi ac ymarfer ar ansawdd gwasanaethau iechyd.

Cludiant

Mae adroddiad diweddaraf y Comisiynydd, Mynediad at Wasanaethau Iechyd yng Nghymru: Materion a Rhwystrau Trafnidiaeth yn nodi canfyddiadau ymchwil i brofiadau pobl hŷn o gael mynediad at wasanaethau iechyd yng Nghymru a'r anawsterau maen nhw'n eu hwynebu'n aml oherwydd materion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth.[7]

Mae'r canfyddiadau yn tynnu sylw at y rhwystrau a'r anawsterau sylweddol y gallai pobl hŷn eu hwynebu'n aml wrth deithio i wasanaethau iechyd, yn aml o ganlyniad i'r opsiynau

trafnidiaeth cyfyngedig sydd ar gael, a materion sy'n ymwneud ag ansawdd, hygyrchedd a dibynadwyedd.

Mae'r materion a nodwyd yn yr adroddiad, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â chynllunio ac ymgysylltu â phobl hŷn, yn cyd-fynd yn ehangach o ystyried y newid sylweddol sydd ar waith yn y gwasanaeth ar hyn o bryd.

Mae'n hanfodol bod y materion y gall pobl hŷn eu hwynebu wrth ddefnyddio gwasanaethau trafnidiaeth yn cael eu deall yn iawn, a bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed wrth i newidiadau gael eu hystyried er mwyn sicrhau nad oes rhwystrau gyda mynediad at wasanaethau.

Ymweld â phobl yn yr ysbyty

Mae pobl hŷn mewn ysbytai yn elwa'n fawr o gyswllt wyneb yn wyneb â'u hanwyliaid a'u ffrindiau. Mae ymweliadau'n chwarae rhan hanfodol yn eu hiechyd a'u llesiant, ac yn ansawdd eu bywyd, yn enwedig i'r rheini sydd fwyaf agored i niwed.

Mae hefyd yn bwysig cofio bod 'ymweld' yn aml yn golygu llawer mwy na rhyngweithio cymdeithasol: mae llawer o berthnasau a ffrindiau'n darparu cymorth ychwanegol i bobl hŷn sydd yn yr ysbyty, fel treulio amser gyda nhw i'w helpu i fwyta ac yfed digon, neu helpu rhywun sy'n annwyl iddynt i gyfleu eu dymuniadau, gan ategu'r gofal sydd ar gael gan staff. Dangoswyd hefyd bod gwybodaeth ac arbenigedd teuluoedd yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o hwyluso gofal sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn ysbytai prysur,[8] tra bod diffyg cyfranogiad gofalwyr yn y gwaith o gynllunio gofal a rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn rhoi pobl mewn perygl.[9]

Mae'n hanfodol deall pa mor anodd yw teimlo'n ynysig, a pha mor anodd oedd cyfnodau hir ar wahân yn ystod y pandemig Covid-19 i lawer o bobl hŷn a'u teuluoedd. Mae hyn eisoes wedi cael effaith ar iechyd a llesiant. Ynghyd â hyn, rhaid cydnabod y risgiau ychwanegol i iechyd a llesiant pobl sy'n cael eu creu pan fydd ymweliadau'n cael eu hatal neu'n cael eu cyfyngu.

Felly, mae'n hanfodol bod gallu pobl hŷn i dderbyn ymweliadau a chadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau pan fyddant yn yr ysbyty yn cael ei gynnwys fel dimensiwn pwysig o ansawdd.

Rhyddhau o ysbyty i gartref gofal

Mae'r Comisiynydd wedi lansio canllaw newydd, Byw mewn cartref gofal yng Nghymru – Canllaw i'ch hawliau, sy'n rhoi gwybodaeth am hawliau pobl hŷn wrth symud i gartref gofal a byw ynddo.[10]

Datblygodd y Comisiynydd y canllaw i helpu pobl hŷn a'u teuluoedd i ddeall yn well yr hawliau sydd ganddynt, beth y gallant ei wneud os ydynt yn poeni nad yw eu hawliau'n cael

eu cynnal, a manylion sefydliadau sy'n gallu darparu cymorth a chefnogaeth, gan gynnwys tîm cyngor a chymorth y Comisiynydd ei hun.

Mae'r canllaw yn cynnwys gwybodaeth am hawliau sy'n ymwneud â byw mewn cartref gofal nad yw pobl hŷn a'u teuluoedd yn ymwybodol ohonynt yn aml, fel yr hawl sydd gan bobl hŷn i fod yn rhan o benderfyniadau am eu gofal, hawliau sy'n ymwneud â chyswllt ag aelodau o'r teulu, a hawliau i gael mynediad at wasanaethau, yn cynnwys gwasanaethau iechyd. Ar ben hynny, mae'r canllaw hefyd yn darparu gwybodaeth am hawliau sy'n ymwneud â thalu am ofal, mater sy'n aml yn destun pryder mawr i bobl hŷn a'u teuluoedd.

Byddai'n ddefnyddiol pe bai timau rhyddhau yn sicrhau bod y canllaw ar gael i bobl hŷn a'u teuluoedd yn gynnar yn y broses rhyddhau, pryd bynnag y mae rhyddhau i gartref gofal yn cael ei ystyried.

Casgliad

Mae ystyried y meysydd uchod a ddilynir gan gamau gweithredu perthnasol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru a chyrff y GIG yn sicrhau gwelliannau yn ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu darparu mewn perthynas â phobl hŷn. Byddai'r Comisiynydd a'i thîm yn fodlon trafod yr ymateb hwn ymhellach.

Nodiadau

[1]Y Gymdeithas Frenhinol er Iechyd y Cyhoedd, That Age Old Question: how attitudes to ageing affect our health and wellbeing 2018 https://www.rsph.org.uk/static/uploaded/a01e3aa7-9356-40bc-99c81b14dd904a41.pdf

[2]Cymdeithas Frenhinol y Seiciatryddion, Suffering in Silence: age inequality in mental health care, November 2018 www.rcpsych.ac.uk/docs/default-source/improving-care/better-mh-policy/college-reports/college-report-cr221.pdf?sfvrsn=bef8f65d_2

[3] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Gweithredu yn Erbyn Oedraniaeth, Medi 2020 https://comisiynyddph.cymru/adnodd/gweithredu-yn-erbyn-oedraniaeth/

[4] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Sut i Osgoi Rhagfarn ar Sail Oedran wrth Gyfathrebu: awgrymiadau ymarferol i weithwyr proffesiynol, Medi 2020 https://comisiynyddph.cymru/adnodd/sut-i-osgoi-rhagfarn-oed-wrth-gyfathrebu-awgrymiadau-ymarferol-i-weithwyr-proffesiynol/

[5]Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Deall Poblogaeth Cymru sy'n Heneiddio: ystadegau allweddol, Awst 2022 https://olderpeople.wales/wp-content/uploads/2022/06/Deall-poblogaeth-Cymru-syn-heneiddio.pdf

[6] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Sicrhau mynediad at wybodaeth a gwasanaethau mewn oes ddigidol: Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd, Tachwedd 2021 https://comisiynyddph.cymru/adnodd/sicrhau-mynediad-at-wybodaeth-a-gwasanaethau-mewn-oes-ddigidol-canllawiau-ar-gyfer-awdurdodau-lleol-a-byrddau-iechyd/

[7] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Mynediad i Wasanaethau Iechyd yng Nghymru: Materion a Rhwystrau Trafnidiaeth, Awst 2021 https://comisiynyddph.cymru/newyddion/mynediad-i-wasanaethau-iechyd-yng-nghymru-materion-trafnidiaeth-a-rhwystrau-2/

[8] Kelley, Godfrey a Young, The impacts of family involvement on general hospital care experiences for people living with dementia: An ethnographic study, 2019 https://eprints.whiterose.ac.uk/145142/3/The%20impact%20of%20family%20involvement%20ACCEPTED%20VERSION.pdf

[9]Carers Wales, Ymgynghoriad ar ryddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai, Ionawr 2022 https://business.senedd.wales/documents/s121815/HD%2039%20-%20Carers%20Wales.pdf

[10]Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Byw mewn cartref gofal yng Nghymru - Canllaw i'ch hawliau, Hydref 2022 https://comisiynyddph.cymru/adnodd/comisiynydd-yn-lansio-canllaw-newydd-ar-hawliau-pobl-hyn-mewn-cartrefi-gofal/

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais annibynnol ac yn eiriolydd ar ran pobl hŷn ledled Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn cymryd camau i warchod hawliau pobl hŷn, i roi diwedd ar wahaniaethu ar sail oedran a gwahaniaethu ar sail oed, i atal cam-drin pobl hŷn ac ialluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd yn gweithio i sicrhau Cymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau'n cael eu cynnal a lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: ask@olderpeople.wales

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Twitter: @comisiwnphcymru